



# Nodiadau Gwybodaeth: Cysgodfannau a Chuddfannau

**Nod y nodiadau gwybodaeth yma yw cynnig cyngor a thriciau ar gyfer sicrhau eich bod yn cael profiad diogel a llwyddiannus o adeiladu cysgodfan.**

## Cyn adeiladu'r Cysgodfan

**Gall hwn fod yn weithgaredd yn y dosbarth neu'n drafodaeth ar y safle cyn dechrau adeiladu.**

Gofynnwch i'ch dysgwyr feddwl am beth yw'r gofynion i adeiladu cysgodfan effeithiol.

Ystyriwch y lleoliad gorau ar gyfer adeiladu cysgodfan.

Er enghraifft:

- Pa ran o'r safle fyddai'n cynnig y lleoliad gorau ar gyfer cysgodfan a pham?
- Fydd y cysgodfan yn sefyll ar ei ben ei hun neu yn cael ei adeiladu yn erbyn coeden?

- Pa ddeunyddiau naturiol ellid eu defnyddio ar gyfer yr adeiladu?
- O ba gyfeiriad fydd y gwynt yn dod? Fydd hynny yn dylanwadu ar leoliad mynedfa'r gysgodfan?
- Pa mor gryf fydd angen i'r gysgodfan fod?
- Beth ellid ei ddefnyddio i'w wneud yn ddiogel rhag dŵr/gwynt?

- Fydd angen ei wneud yn guddliw a pham?
- Pa ddeunyddiau y gellid chwilio amdany'n nhw i wneud y gysgodfan yn gyfforddus a chynnes?
- Sut fydd y grŵp yn trefnu eu hunain yn ystod y broses adeiladu? Fyddan nhw yn dewis arweinydd, rhannu cyfrifoldebau ayyb?

Os oes gennych ddigon o amser, rhannwch y dysgwyr i'w grwpiau adeiladau cuddfan, a gofynnwch iddynt dynnu llun o'r cysgodfan, neu efallai adeiladu model ohono ar raddfa fechan. Trafodwch y gwahanol gynlluniau a rhowch amser i'r grwpiau addasu a mireinio eu syniadau cychwynnol.

## Defnydd Cynaliadwy o Ddeunyddiau

**Pwrpas Cyfoeth Naturiol Cymru yw mynd ati i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn ei holl waith. Mae hyn yn golygu gofalu am yr awyr, dŵr, bywyd gwyllt, planhigion a phridd er mwyn gwella lles Cymru a darparu gwell dyfodol i bawb.**

Mae'n bwysig sicrhau bod eich gweithgareddau yn defnyddio adnoddau cynaliadwy sydd yn cael yr effaith leiaf posib ar yr amgylchedd naturiol. Byddwch hefyd angen caniatâd gan berchennog y tir er mwyn codi cysgodfannau dros dro a chasglu'r deunyddiau, ac fe fydd yn rhaid cydymffurfio gyda gweithdrefnau a pholisiâu'r safle.

### **Esiaml o reolaeth gynaliadwy a chynaeafu coed ar gyfer adeiladu cysgodfan:**

Mae prysgoedio yn ffordd draddodiadol o reoli coetiroedd yn gynaliadwy, lle mae cyffion coed ifanc yn cael eu torri i lefel isel. Mewn blynyddoedd tyfu dilynol, bydd sawl blagur yn ymddangos ar ôl nifer o flynyddoedd (tua 15 mlynedd ar gyfer collen) gyda'r cylch yn dechrau eto a'r goeden (neu'r cyffyn) wedi'i brysgoedio yn barod i'w gynaeafu.

Yn arferol bydd coetiroedd prysgoedio yn cael eu cynaeafu mewn rhannau mewn cylchdro. Fel hyn mae tyfiant ar gael bob blwyddyn. Mae hyn yn ei hanfod yn caniatáu cynefin cyfoethog amrywiol, gan fod i'r coetir ystod o wahanol o dyfiant o wahanol oed. Mae hyn o fudd i fioamrywiaeth. Mae hyd y cylchdro yn dibynnu ar pa fathau o goed sy'n cael eu torri, yr arfer yn lleol, a'r defnydd a wneir o'r cynnyrch wedyn.

Mae'r rhan fwyaf o goed llydanddail yn addas i'w prysgoedio. Fodd bynnag rhai o'r rhywogaethau gorau yw coed cyll, masarn, ynn a helyg. Mae modd prysgoedio coed bedw ar gyfer ffagod (canghennau a brigau wedi'u clymu at ei gilydd i ffurfio bwndeli) mewn cylchdro 3 i 4 mlynedd, lle bo coed derw yn medru cael eu prysgoedio dros gylchdro 50 mlynedd i gynhyrchu polion neu goed tân.



# Nodiadau Gwybodaeth: Cysgodfannau a Chuddfannau

## Sesiwn adeiladu cysgodfan

Gellir adeiladu cysgodfeydd heb ddefnyddio offer. Os ydych yn bwriadu defnyddio offer gyda'ch dysgwyr, rydym yn argymhell bod yr arweinydd gweithgareddau:

- ✓ hefo profiad a gwybodaeth am reoli grŵp
- ✓ yn cwblhau asesiad budd-dal risg
- ✓ hefo polisiau a gweithdrefnau defnyddio offer ar waith
- ✓ yn dal cymhwyster Arweinydd Ysgol Goedwig Lefel 3 neu â phrofiad perthnasol arall

## Dylai dysgwyr:

- lusgo darnau mwy o bren wrth eu hochr neu gario gyda phartner
- sicrhau bod rhan lletaf y coed ar lawr a'i 'gerdded i fyny' os oes angen ei roi yn fertigol
- bod yn ymwybodol o leoliad aelodau eraill ei grŵp
- defnyddio offer yn saff gan ystyried pobl eraill ar yr un pryd
- sicrhau bod y gysgodfan yn saff cyn mynd i fewn iddo

## Yn ystod y sesiwn, ni ddylai dysgwyr:

- dringo ar ben boncyffion mawr a chysgodfannau
- mynd mewn i'r gysgodfan os oes rhywun yn y grŵp yn adeiladu
- cario brigau mawr eu hunain
- gadael y safle adeiladu



## Mathau o Gysgodfannau

Mae'r math o gysgodfan yn dibynnu ar y math o rywogaethau ar gael (h.y. llydanddail neu gonwydd), faint o le agored sydd ar gael a maint y grŵp.

Ceir canllawiau yn y tabl isod.

Math o gysgodfan	Maint grŵp 1-12	Maint grŵp 12+	Llydanddail / Conifer
Gorbwyso	✓	✓	Y ddau
Ffrâm siâp A	✓		Y ddau
Cysgodfan Blyg	✓		Llydanddail yn unig
Cyfuniad	✓	✓	Rhywogaeth gymysg
Wigwam	✓		Y ddau
Cysgodfan Pabell	✓		Y ddau
Cysgodfan heb walïau	✓		Y ddau






# Nodiadau Gwybodaeth:

## Cysgodfannau a Chuddfannau

### Cysgodfan Wigwam




### Cysgodfan Pabell




### Cysgodfan heb waliau

Yn defnyddio coeden fel cynhaliaeth yn ychwanegol at ystod o bolion syth wedi eu torri.




### Cysgodfan Gorbwyso

Yn defnyddio coeden fel cynhaliaeth yn ychwanegol i ystod o bolion syth wedi eu torri.




### Cysgodfan Ffrâm Siap A

Fframwaith sydd yn cael ei osod at ei gilydd gan ddefnyddio llachio sgwâr ac ystod o bolion gwrysglwyd, syth.



### Cysgodfan Blyg

Cysgodfan wedi ei adeiladu o bolion gwrysglwyn collen hyblyg wedi gosod yn y ddaear, eu plygu a'u clymu gyda'i gilydd.





# Nodiadau Gwybodaeth: Cysgodfannau a Chuddfannau

## Clymau

Mae sawl math o glymau syml sydd yn ddefnyddiol iawn ar gyfer adeiladu a chryfhau cysgodfan. Isod rydym yn disgrifio'r ddau gwlm sy'n hawdd eu dysgu ac maent yn allweddol i adeilad lloches lwyddiannus.

Dylid dysgu'r clymau cyn y sesiwn adeiladu gan feddwl am ffordd y byddech yn gyfforddus i'w dysgu nhw. Caniatewch ddigon o amser i ymarfer.

## Cwlwm Llinglwm

Mae cwlwm llinglwm yn gwlm clymu sydd yn cael ei ddefnyddio i gau carrai esgidiau – heb y dolenni.

Gafaelwch ymhob pen i'r cortyn, eu tynnu yn dynn gan roi y chwith dros y dde a'r dde dros y chwith. Yna tynnu yn dynn ar bob pen.


## Cwlwm Croes

Dyma gwlm syml hawdd ei ddysgu. Mae'n gwlm da i gychwyn rhoi eich rhaff i'r gysgodfan cyn defnyddio'r rhwymyn sgwâr. Mae'n cael ei ddefnyddio hefyd i 'fachu' rhaff i bostyn wrth greu pethau fel lein ddiad.

Mae sawl ffordd o glymu cwlwm croes. Dyma'r ddau techneg sy'n cael eu defnyddio amlaf.


### Techneg 1

- i) Gadwch i'r llinyn hongian dros y pren gan gadw'r rhan ôl (B) yn hirach. Dewch a B i'r blaen a thros A.
- ii) Gadwch i B hongian dros y pren am yr eildro, a'i ddolennu'n ôl drwy ei hun.
- iii) Tynnwch y ddau gortyn mewn i gyfeiriadau gwahanol er mwyn tynhau'r bachyn.



### Techneg 2

- i) Ffurfiwch 2 ddolen – gweler y llun.
- ii) Llithrwch dolen A tu ôl i ddolen B.
- iii) Llithrwch y dolenni ar y pren a thynnwch y ddau ben i gyfeiriadau gwahanol i'w dynhau.






# Nodiadau Gwybodaeth: Cysgodfannau a Chuddfannau


## Rhwymyn Sgwâr

Mae'r rhwymyn sgwâr yn gwlwm defnyddiol ar gyfer adeiladu cysgodfan. Mae'n gwlwm diogel sy'n dal dau frigyn gyda'i gilydd sydd yn ychwanegu at gryfder ffrâm y gysgodfan.


- 1 Rhowch y polyn llorweddol ar dop y polyn fertigol i ffurfio croes. Pasiwch y cortyn y tu ôl i'r 'X' a thros dop Y ac W.




- 2 Pasiwch y cortyn y tu ôl i 'Z' fel eu bod yn croesi.




- 3 Dilynwch lwybr y cortyn am dri thro arall, gan dynnu'r cortyn yn dynn ar ôl pob tro.



- 4 Clymwch bob pen i'r cortyn er mwyn gwneud y cortyn yn dynn. Clymwch drwy groesi'r cortyn dros 'Z', yna dewch ag un cortyn o dan 'W', un o dan 'Y' a chroesi'r cortyn dros 'X'. Dylid ailadrodd hyn ddwy neu dair gwaith.



- 5 Clymwch gwlwm croes i orffen a throwch y pennau i mewn.





## Nodiadau Gwybodaeth: Cysgodfannau a Chuddfannau



### Ôl-weithgaredd adeiladu cysgodfan

Gellir adolygu a gwerthuso'r cynnyrch terfynol gan eich dysgwyr a llun neu gynllun ôl gorffen gael ei wneud. Dylid nodi lawr holl nodweddion y cynllun a gellir trafod eu swyddogaeth/defnydd.

Trafodwch y cynnyrch terfynol, perthnasu ei ddefnydd terfynol ac ansawdd y gwaith a'r defnyddiau a ddefnyddiwyd, h.y. coed prysgoedio ffres neu bren marw o'r llawr.

Dylid ail ymweld â'r theori yn ymwneud â phrysgoedio ac unrhyw ymarferion rheoli coed cynaliadwy, y gwahanol rywogaethau o goed a'r system eco ehangach.

Archwilio cysgodfannau o amgylch y byd.

Os yn berthnasol, dylai'r arweinydd grŵp sicrhau bod y cuddfannau'n cael eu dymchwel yn ddiogel ar ôl i'r weithgaredd orffen.



### Edrych am ragor o adnoddau dysgu, gwybodaeth a data?

Cysylltwch â: [addysg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:addysg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)  
neu ewch i [www.cyfoethnaturiol.cymru/dysgu](http://www.cyfoethnaturiol.cymru/dysgu)

Fformat gwahanol; print mawr neu iaith arall cysylltwch â:  
[ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk) // 0300 065 3000